



**Comisiwn
y Gyfraith**
Diwygio'r gyfraith

Comisiwn y Gyfraith

Papur ymgynghorol Rhif 213

**TROSEDDAU CASINEB: YR ACHOS DROS
YMESTYN Y TROSEDDAU PRESENNOL**

Crynodeb ar gyfer y rhai nad ydynt yn arbenigwyr

CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae hwn yn grynodeb o'n papur ymgynghorol ar droseddau casineb.¹ Mae'n rhoi trosolwg o'r papur ac mae ar gyfer pobl sydd heb wybodaeth gyfreithiol arbenigol. Mae'n egluro'r troseddau presennol sy'n ymdrin â throseddau casineb o dan gyfraith Cymru a Lloegr. Mae'n edrych ar y dadleuon ynghylch a ddylent gael eu hymestyn i ymdrin â throseddau ar sail casineb yn erbyn: pobl sydd ag anabledd, pobl drawsryweddol, a phobl ar sail eu cyfeiriadedd rhywiol, er enghraifft, sy'n lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol (rydym yn galw'r grŵp olaf hwn yn "LGB").
- 1.2 Yn ei chynllun gweithredu tair blynedd ar droseddau casineb, a lansiwyd ym mis Mawrth 2012, eglurodd y Llywodraeth ei bod am ganolbwyntio ar y canlynol:
- atal troseddau casineb - trwy herio'r agweddau sy'n sail iddynt, ac ymyrryd yn gynnar i'w hatal rhag gwaethygu;
 - cynyddu adrodd amdanynt a mynediad at gymorth - drwy feithrin hyder dioddefwyr a chefnogi partneriaethau lleol;
 - gwella'r ymateb gweithredol i droseddau casineb - trwy adnabod a rheoli achosion yn well, ac ymdrin yn effeithiol â throseddwyr.²
- 1.3 Ar hyn o bryd, mae'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron ("CPS") yn cofnodi fel "trosedd casineb" unrhyw drosedd sy'n cael ei gweld, gan y dioddefwr neu berson arall, fel un sydd wedi'i hysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol. Er bod yr heddlu a'r CPS yn cofnodi "troseddau casineb" am bob un o'r pum "nodwedd warchoddedig" hyn, nid yw'r troseddau yn ymdrin yn benodol â throseddau casineb ond maent yn ymdrin â rhai ohonynt, fel yr ydym yn egluro isod.
- 1.4 Mae'r set gyntaf o droseddau casineb yn "droseddau gwaethygedig". Maent yn cael eu cynnwys yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 ("CDA"). Os yw person yn cyflawni un o restr o droseddau ac, wrth wneud hynny, yn arddangos neu'n cael ei ysgogi gan elyniaeth ar sail *hil neu grefydd*, mae'r drosedd honno yn dod yn drosedd "waethygol" ar wahân, gyda dedfryd lymach ar gael. Ar hyn o bryd, nid yw'r troseddau gwaethygedig yn cwmpasu gelyniaeth ar sail cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol nac anabledd.
- 1.5 Yr ail set o droseddau casineb yw trosedd o "ysgogi casineb". Mae'r rhain yn cael eu cynnwys yn y Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 ("POA"). Maent yn ymdrin â'r broblem o ysgogi casineb ar sail *hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol*. Ar hyn o bryd, nid yw troseddau ysgogi'n cwmpasu casineb ar sail hunaniaeth drawsryweddol neu anabledd.

¹ Hate Crime: The case for extending the existing offences (2013) Papur Ymgynghorol rhif 213, ar gael yn http://lawcommission.justice.gov.uk/consultations/hate_crime.htm.

² Llywodraeth EM, *Challenge it, Report it, Stop it: the Government's plan to tackle hate crime* (Mawrth 2012) para 1.19.

- 1.6 Mae ein papur ymgynghorol yn edrych ar yr achos dros ymestyn y ddwy set o droseddau, fel eu bod yn cynnwys pob un o'r pum nodwedd warchoddedig. Yn benodol, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gofyn i ni edrych ar:

“(a) ymestyn y troseddau gwaethygedig yn Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998 i gynnwys lle'r arddangosir gelyniaeth tuag at bobl ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth ryweddol [h.y." trawsryweddol"];

(b) yr achos dros ymestyn troseddau ysgogi casineb o dan Ddeddf Trefn Gyhoeddus 1986 i gynnwys ysgogi casineb ar sail anabledd neu hunaniaeth ryweddol [h.y." trawsryweddol"].

- 1.7 Yn ogystal â'r troseddau hyn, mae'r gyfraith yn delio â throseddau casineb drwy bwerau dedfrydu arbennig, fel y nodir yn adrannau 145 a 146 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ("CJA"). Rydym yn galw hyn yn "dedfrydu estynedig". Gall y barnwr gynyddu'r dedfryd ar gyfer troseddwr sy'n euog o unrhyw drosedd, os cafodd ei hysgogi gan elyniaeth neu ei bod yn cynnwys arddangos gelyniaeth ar sail unrhyw un o'r pum nodwedd. (Mae'r un prawf arddangosiad neu brawf ysgogiad o dan y troseddau gwaethygedig yn berthnasol yma.) Yn y prosiect hwn, byddwn yn edrych ar sut mae gwaith dedfrydu estynedig yn gweithio a sut y mae'n effeithio ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn ymestyn y troseddau presennol. Rydym hefyd yn ystyried a oes angen newidiadau i wneud dedfrydu estynedig yn fwy effeithiol.

- 1.8 Nid yw'r prosiect yn gofyn pam fod angen y troseddau casineb sy'n bodoli eisoes. Nid yw ychwaith yn gofyn a ddylai'r troseddau yma gynnwys grwpiau eraill, fel pobl hŷn, pobl ddigartref, gweithwyr rhyw neu'r rhai sy'n rhan o isddiwylliannau gwahanol, er bod troseddau sy'n seiliedig ar elyniaeth yn erbyn y rhain a grwpiau eraill yn digwydd. Ni allwn ond edrych ar yr achos dros ymestyn y troseddau presennol i gynnwys y nodweddion gwarchoddedig ychwanegol o anabledd, trawsryweddol ac (ar gyfer troseddau gwaethygedig yn unig) cyfeiriadedd rhywiol.

RHAI YSTADEGAU

- 1.9 Mae'r ystadegau ar droseddau casineb yn cael eu casglu ac adroddir arnynt gan nifer o adrannau'r Llywodraeth a chyrrff eraill sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol. Mae ystadegau ar nifer yr achosion sy'n cael eu hadrodd, eu cofnodi a'u herlyn fel troseddau casineb bob blwyddyn wedi eu rhannu ar draws y pum grŵp. Hefyd, mae ystadegau yn dangos faint o achosion o droseddau casineb a gofnodwyd sy'n cael eu herlyn gan y CPS bob blwyddyn a faint o euogfarnau a geir bob blwyddyn. Yn Atodiad C y papur ymgynghorol, rydym yn cyflwyno'r ystadegau perthnasol ar droseddau casineb. Rhoddir peth gwybodaeth gryno isod.
- 1.10 Yn ôl ffigyrau'r Swyddfa Gartref, yn y flwyddyn 2011-2012, roedd troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu fel troseddau casineb yn cynrychioli tua 1% o'r holl droseddau a gofnodwyd. Yn 2011-2012, cofnododd yr heddlu 43,748 o droseddau fel troseddau casineb. Mae'r cyfrannau ar draws y pum grŵp gwarchoddedig fel a ganlyn: hil 82%; cyfeiriadedd rhywiol 10%; crefydd 4%, anabledd 4%; a thrawsryweddol 1%.

- 1.11 Mae gwybodaeth am y nifer blynyddol o erlyniadau troseddau casineb yn cael ei chynnwys yn adroddiad blynyddol y CPS ar Droseddau Casineb a Throseddau yn Erbyn Pobl Hŷn. Mae'r adroddiad diwethaf o Hydref 2012 yn nodi fod y CPS wedi erlyn 14,196 o droseddau casineb yn y flwyddyn 2011-2012. (Oherwydd y diffiniad ehangach maent yn ei ddefnyddio ar gyfer trin rhywbeth fel trosedd casineb, nid dim ond ar gyfer erlyniadau am droseddau gwaethgedig neu ysgogi casineb fydd y rhain, neu lle cafodd dedfrydu estynedig ei ddefnyddio.)
- 1.12 Nid yw'r ystadegau sydd ar gael yn ein galluogi i asesu union faint neu natur y troseddu sy'n seiliedig ar elyniaeth tuag at anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

NOD YR YMGYNGHORIAD

- 1.13 Nod yr ymgynghoriad hwn yw gwahodd ymatebion a fydd yn ein helpu yn ein dadansoddiad o'r achos dros ymestyn y troseddau presennol. Yn ogystal â gofyn nifer o gwestiynau, rydym yn gwneud rhai cynigion dros dro yn y papur hwn. Ond nid yw hyn yn golygu ein bod wedi cyrraedd barn derfynol: mae'r cynigion yn rhai *dros dro*. Byddwn yn eu hadolygu yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwn ac yn cymryd yr ymatebion hyn i ystyriaeth. Ar ôl y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ynghyd ag argymhellion. Rydym yn disgwyl gwneud hyn yn ystod gwanwyn 2014.
- 1.14 Nid ydym yn rhoi cymaint o fanylion yma ag yr ydym yn ei wneud yn ein prif bapur ymgynghorol. Nid ydym yn rhoi cyfeiriadau at ein ffynonellau fel yr ydym yn ei wneud yno. Ond os hoffech gael mwy o wybodaeth, mae ein gwefan yn rhoi mynediad i'r papur ymgynghorol gyda'n cynigion a'r cwestiynau a nodir yn llawn.³ Mae hefyd atodiadau ar: y berthynas rhwng troseddau casineb a'r hawl i ryddid mynegiant (Atodiad A); hanes y deddfau troseddau casineb yng Nghymru a Lloegr (Atodiad B); ac effaith economaidd bosibl gweithredu ein cynigion dros dro (Atodiad C). Ar y wefan hefyd ceir papur ar wahân gan Dr John Stanton-Ife ar y theori gyfreithiol ehangach sy'n sail i gyfraith trosedd casineb, a sut mae'n berthnasol i'r estyniad posibl.

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

- 1.15 Dim ond dros dro yw'r farn a fynegir a'r cynigion a gyflwynir gennym. Nid ydym wedi dod i unrhyw farn derfynol. Dim ond ar ôl ystyried yr ymatebion i'n hymgyngoriad y byddwn yn gallu llunio argymhellion terfynol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar **27 Medi 2013**. Mae'r papur ymgynghorol llawn, gan gynnwys y cwestiynau ar gyfer ymgynghoreion, ar gael ar ein gwefan, yn http://lawcommission.justice.gov.uk/consultations/hate_crime.htm. Byddem yn eich annog i ddefnyddio ein ffurflen ymateb, sydd ar gael ar ein gwefan yn http://lawcommission.justice.gov.uk/docs/cp213_hate_crime_response-form.pdf. Gellir anfon hon atom drwy e-bost i hate.crime@lawcommission.gsi.gov.uk neu drwy'r post i'r Criminal Law Team, Law Commission, Steel House, 11 Tothill Street, London, SW1H 9LJ.

³ http://lawcommission.justice.gov.uk/consultations/hate_crime.htm

1 TROSEDDAU GWAETHYGEDIG A DEDFRYDU ESTYNEDIG

Y GYFRAITH GYFREDOL AR DROSEDDAU GWAETHYGEDIG

- 1.16 Mae'n bwysig deall sut y mae'r troseddau gwaethygedig sy'n delio â gelyniaeth tuag at hil a chrefydd yn gweithio oherwydd, pe baent yn cael eu hymestyn i gynnwys anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol, byddai'r troseddau newydd yn gweithio yn yr un ffordd.
- 1.17 Mae rhywun sy'n cyflawni un o'r troseddau yn y rhestr isod, ac, wrth wneud hynny, naill ai'n arddangos, neu'n cael ei ysgogi gan, elyniaeth ar sail hil neu grefydd, yn cyflawni "trosedd waethygedig".
- 1.18 "Troseddau gwaethygedig" yw fersiynau gwaethygedig o rai troseddau eraill, yr ydym yn eu galw'n "droseddau sylfaenol". Mae'r unig droseddau sylfaenol y gellir eu gwaethygu yn cael eu nodi yn adrannau 29 i 32 o'r CDA. Y rhain yw:
- (1) niwed corfforol difrifol;
 - (2) niwed corfforol gwirioneddol;
 - (3) ymosod a churo;
 - (4) dinistrio neu ddifrodi eiddo;
 - (5) ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus tuag at rywun gyda'r bwriad o achosi ofn trais neu gythruddo trais;
 - (6) ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus y bwriedir iddo achosi aflonyddwch, braw neu drallod;
 - (7) ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod;
 - (8) aflonyddu a stelcio; a
 - (9) rhoi pobl mewn ofn o drais a stelcio sy'n cynnwys ofn trais, braw neu drallod difrifol.
- 1.19 Mae dwy ffordd ar wahân y gall trosedd waethygedig gael ei chyflawni. Y cyntaf yw *arddangos* gelyniaeth tuag at ddiodeffwr trosedd sylfaenol oherwydd hil neu grefydd gwirioneddol neu dybiedig y diodeffwr. Yr ail yw i gael eu *cymell* i gyflawni trosedd sylfaenol oherwydd gelyniaeth tuag at aelodau o grŵp hil neu grefyddol oherwydd eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw.

Beth mae'n ei olygu i "ddangos gelyniaeth"?

- 1.20 Gellir dangos gelyniaeth drwy eiriau, ystumiau ac ymddygiad eraill, fel canu rhai caneuon. Nid yw o bwys pam fod y troseddwr wedi cyflawni'r drosedd. Y cyfan sy'n bwysig yw bod gelyniaeth hiliol neu grefyddol wedi ei dangos at y diodeffwr wrth wneud hynny. Nid oes ots ychwaith os oedd y troseddwr wedi camgymryd hil neu grefydd y diodeffwr.
- 1.21 Mae hefyd yn drosedd waethygedig dangos gelyniaeth hiliol neu grefyddol tuag at ddiodeffwr oherwydd eu bod yn cymysgu neu'n cymdeithasu ag aelodau o'r hil neu grefydd y mae'r troseddwr yn elyniaethu tuag ati, hyd yn oed os nad yw'r diodeffwr yn perthyn i'r grŵp hwnnw.

Beth mae'n ei olygu i gael eu "hysgogi gan elyniaeth"?

- 1.22 Mae trosedd sylfaenol yn cael ei hysgogi gan elyniaeth - ac felly'n dod yn drosedd waethygedig - os yw'r troseddwr wedi ei chyflawni oherwydd gelyniaeth tuag at aelodau o grŵp hil neu grefyddol ar sail eu haelodaeth o'r grŵp hwnnw. Nid oes angen i elyniaeth hiliol neu grefyddol fod yr unig ysgogiad i'r troseddwr. Efallai fod y troseddwr hefyd yn cael ei ysgogi gan elyniaeth am resymau eraill, megis swydd y dioddefwr.
- 1.23 Gall ymddygiad y troseddwr ar adegau eraill gael ei ddefnyddio i helpu profi cymhelliant: er enghraifft, ei fod yn perthyn i grŵp hiliol. Ond gall fod yn anodd profi pam fod rhywun wedi cyflawni trosedd. Yn fwy aml caiff troseddau gwaethygedig eu herlyn oherwydd arddangos gelyniaeth yn hytrach na chymhelliad gelyniaethus.

Dedfrydau hirach i droseddau gwaethygedig

- 1.24 Gall y troseddau gwaethygedig gario dedfrydau carchar sy'n hirach na'r fersiynau trosedd sylfaenol. Yn y tabl isod rydym yn dangos y gwahaniaethau rhwng uchafswm y dedfrydau ar gyfer y troseddau sylfaenol, o'u cymharu â throseddau gwaethygedig.

Trosedd Sylfaenol	Uchafswm Cosb	Trosedd Waethygedig	Uchafswm Cosb
Clwyfo maleisus	5 mlynedd	Clwyfo maleisus gwaethygedig	7 mlynedd
Gwir niwed corfforol	5 mlynedd	Gwir niwed corfforol gwaethygedig	7 mlynedd
Ymosod cyffredin	6 mis	Ymosod cyffredin gwaethygedig	2 flynedd
Difrod troseddol	10 mlynedd	Difrod troseddol gwaethygedig	14 mlynedd
Ofn neu gythruddo trais	6 mis	Ofn neu gythruddo trais gwaethygedig	2 flynedd
Aflonyddwch, braw neu drallod	Dirwy o hyd at £1,000	Aflonyddu, braw neu drallod gwaethygedig	Dirwy o hyd at £2,500
Achosi aflonyddwch bwriadol, braw neu drallod	6 mis	Achosi aflonyddwch bwriadol, braw neu drallod gwaethygedig	2 flynedd
Trosedd o aflonyddu	6 mis	Trosedd o aflonyddu gwaethygedig	2 flynedd
Rhoi pobl mewn ofn trais	5 mlynedd	Rhoi pobl mewn ofn trais gwaethygedig	7 mlynedd

- 1.25 Os yw'n ymddangos fod dedfryd am drosedd ddwys mewn achos penodol yn rhy isel, neu'n "rhy drugarog", gall yr achos gael ei gyfeirio i'r Llys Apêl ar gyfer adolygiad. Weithiau mae hynny'n arwain at roi dedfryd hirach. Ni all dedfrydau a gaiff eu rhoi mewn perthynas â throseddau sylfaenol gael eu gyfeirio at y Llys Apêl yn y ffordd hon.

Y GYFRAITH BRESENNOL AR DDEFYDDU ESTYNEDIG

- 1.26 Mae'r gyfraith yn darparu ymateb amgen i droseddu yn seiliedig ar elyniaeth, yr ydym wedi bod yn ei ystyried wrth edrych ar yr angen i ymestyn y troseddau gwaethygedig. Os bydd unrhyw drosedd yn cael ei chyflawni, ac eithrio trosedd fwy difrifol, sy'n cynnwys arddangos gelyniaeth neu sydd wedi'i ysgogi gan elyniaeth ar sail hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol, gall dedfryd y troseddwr gael ei chynyddu. Rydym yn galw'r cynllun hwn yn "ddedfrydu estynedig".
- 1.27 Os dangoswyd gelyniaeth, mae'n rhaid i'r llys ei chymryd i ystyriaeth wrth bennu'r ddedfryd. Rhaid i'r llys hefyd ddatgan yn gyhoeddus wrth gyhoeddi'r ddedfryd fod gelyniaeth wedi cael ei chymryd i ystyriaeth, a sut y mae'r ddedfryd wedi ei chynyddu o ganlyniad.
- 1.28 Mae'r gyfraith ar ddedfrydu estynedig yn adrannau 145 a 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol. Mae adran 145 yn cynnwys gelyniaeth ar sail hil a chrefydd. Mae Adran 146 yn cynnwys gelyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.
- 1.29 Mae'r un esboniadau o'r hyn y mae'n ei olygu i arddangos gelyniaeth a'r hyn mae'n ei olygu i fod yn elyniaeth a ysgogwyd, sy'n berthnasol i droseddau gwaethygedig, hefyd yn berthnasol i ddedfrydu estynedig. Eglurwyd y rhain uchod ym mharagraffau 1.20 i 1.23.

Y dedfrydau sydd ar gael wrth ddefnyddio'r cynllun dedfrydu estynedig

- 1.30 Mae'n rhaid i'r ddedfryd sy'n cael ei rhoi trwy ddefnyddio'r cynllun dedfrydu estynedig yn adrannau 145 a 146 ddod o fewn yr ystod o ddedfrydau sydd ar gael ar gyfer y drosedd. Ni all y llys gynyddu uchafswm y gosb. Mae hyn yn wahanol i'r troseddau gwaethygedig sydd eu hunain ag uchafswm dedfrydau uwch na'r fersiynau trosedd sylfaenol. Er enghraifft, mae'r ddedfryd uchaf ar gyfer unrhyw ymosodiad cyffredin yn chwe mis o garchar, felly mae'r ddedfryd uchaf ar gyfer ymosodiad sy'n cynnwys gelyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol yn chwe mis o garchar. Ar y llaw arall, mae'r ddedfryd uchaf ar gyfer ymosodiad gwaethygedig hiliol neu grefyddol, a gyhuddir o dan y CDA, yn ddwy flynedd o garchar.
- 1.31 Bydd y swm y caiff y ddedfryd ei chynyddu'n dibynnu ar ddifrifoldeb yr elyniaeth ar sail hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol. Mae'r ffactorau a gymerir i ystyriaeth wrth benderfynu ar ddifrifoldeb yn cynnwys yr effaith mae ymddygiad y troseddwr wedi ei gael ar y dioddefwr ac eraill, a p'un a oedd y rhan elyniaeth o'r drosedd wedi'i chynllunio.

Beth os na ellir profi gelyniaeth?

- 1.32 Weithiau caiff troseddau eu cyflawni yn erbyn pobl anabl, trawsryweddol neu LGB sy'n cael eu trin gan yr heddlu a'r erlyniad fel troseddau casineb oherwydd eu bod wedi'u hadrodd neu eu cofnodi fel trosedd casineb. Efallai fod y dioddefwr neu rywun arall wedi ei gweld fel trosedd a yrrwyd gan elyniaeth. Fodd bynnag, efallai na fydd yn bosibl dangos bod gelyniaeth wedi'i harddangos neu fod y drosedd wedi'i hysgogi gan elyniaeth. Mewn achos o'r fath, mae'n dal i fod yn bosibl i'r ddedfryd gael ei chynyddu i adlewyrchu difrifoldeb y drosedd. Er enghraifft, gallai person anabl fod yn ddiodesfwr lladrad am fod y troseddwr yn meddwl eu bod yn darged hawdd. Yn y sefyllfa hon, gall y llys ddal i gynyddu'r ddedfryd, trwy ddefnyddio darpariaethau eraill yn y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a chanllawiau a grëwyd i ddelio â dedfrydu troseddau difrifol.

Y TROSEDDAU GWAETHYGEDIG: CYNIGION DROS DRO

- 1.33 Ym mhennod 3 o'r papur ymgynghorol rydym yn nodi ein cynigion dros dro i ymestyn y troseddau gwaethygedig er mwyn ymdrin ag anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.
- 1.34 Rydym wedi nodi dau opsiwn i newid y gyfraith, er nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd – gellid cyflwyno'r ddau opsiwn. Y dewis cyntaf yw gwella'r cynllun dedfrydu estynedig yn adrannau 145 a 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol.
- 1.35 Yr ail opsiwn yw ymestyn y troseddau gwaethygedig fel eu bod yn berthnasol pan fydd rhywun yn cyflawni un o'r naw trosedd sylfaenol gyda gelyniaeth tuag at anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol. Gall y rhai sy'n meddwl fod opsiwn diwygio 1 yn rhoi ateb digonol gredu bod opsiwn diwygio 2 yn ddiangen. Ar y llaw arall, efallai y bydd yn well gan rai ymgynghoreion opsiwn diwygio 2, neu eu bod yn teimlo bod y ddau opsiwn diwygio yn ategu ei gilydd a bod angen y ddau.
- 1.36 Mae ein trafodaeth ar yr opsiynau diwygio yn cael ei harwain gan ein hawydd i'r gyfraith ar droseddau casineb fod, cyn belled ag y bo modd, yn deg a modern, yn glir a syml, ac yn gweithio'n effeithiol a chyson yn ymarferol.

OPSIWN DIWYGIO 1: DARPARIAETHAU DEDFRYDU ESTYNEIDIG

- 1.37 Y dewis cyntaf ar gyfer diwygio yw gwneud rhai newidiadau i'r cynllun dedfrydu estynedig yr ydym yn credu fyddai'n ei wneud yn well ateb i'r broblem o droseddau casineb. Fodd bynnag, cyn nodi ein newidiadau arfaethedig i'r cynllun dedfrydu, edrychwn ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn defnyddio adran 146 fel ymateb effeithiol i droseddau sy'n seiliedig ar elyniaeth. Mae'r dadleuon fel a ganlyn:

Y gallu i ymdrin â'r math a maint o droseddu

- 1.38 Mae adran 146 yn berthnasol i *bob* trosedd. Mewn cyferbyniad, dim ond i'r naw "trosedd sylfaenol" a restrir yn y CDA fyddai unrhyw droseddau gwaethygedig newydd ar gyfer anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol yn berthnasol. Nid yw'n glir bod y troseddau sylfaenol yn adlewyrchu'r math, neu faint, o droseddu a yrrir gan elyniaeth yn erbyn y tri grŵp. Ni allwn newid y rhestr o droseddau sylfaenol.

Rhwyddineb dethol cyhuddiad

- 1.39 Os gall trosedd gael ei chyhuddo fel trosedd waethygedig, ni ellir ei hystyried o dan y cynllun dedfryd estynedig, hyd yn oed os na chafodd y cyhuddiad ei ddwyn. Mae hyn oherwydd bod y troseddau gwaethygedig a'r cynllun dedfrydu estynedig yn annibynnol ar ei gilydd. Byddai'n ddull sengl cliriach a symlach dibynnu ar adran 146, heb greu troseddau gwaethygedig newydd. Gallai hyn arwain at weithredu sy'n ymarferol fwy effeithiol a chyson. Byddai'n golygu na fyddai'n rhaid i erlynyddion benderfynu p'un a ddylid cyhuddo troseddwr am drosedd waethygedig ynteu trosedd sylfaenol, gan y byddai'r elfen o elyniaeth bob amser yn berthnasol wrth ddedfrydu.

Y cosbau uchaf

- 1.40 Mae'r cosbau uchaf sydd ar gael o dan adran 146 yr un fath ag ar gyfer y drosedd sylfaenol, er bod gelyniaeth wedi ei phrofi. Mewn cyferbyniad, mae gan y troseddau gwaethygedig eu set eu hunain o ddedfrydau uchaf sy'n uwch na'r rhai sylfaenol cyfatebol. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl ym mharagraff 1.24 uchod. Fodd bynnag, ar gyfer y rhan fwyaf o droseddau gwaethygedig, yn ymarferol mae'r dedfrydau cyfartalog a roddir ymhell islaw'r uchafswm sydd ar gael ar gyfer y drosedd sylfaenol.

Labelu

- 1.41 Wrth ddefnyddio adran 146, rhaid i'r barnwr wneud datganiad yn y llys agored am elfen elyniaeth y drosedd, ond nid ywr label, neu enw, y drosedd yn newid. Mewn cyferbyniad, mae'r troseddau gwaethygedig yn cario "label gwaethygedig" gyda hwy. Mae hyn yn golygu y bydd troseddwr sy'n cyflawni trosedd waethygedig yn euog o, er enghraifft, "ymosodiad hiliol gwaethygedig". Mae'r label gwaethygedig, neu enw'r drosedd, yn ei gwneud yn glir i'r troseddwr, y dioddefwr a'r cyhoedd, bod y troseddwr wedi cyflawni trosedd sy'n fwy difrifol na throsedd sylfaenol. Mae hefyd yn anfon neges bod camweddau yn erbyn grwpiau a ddiffinnir yn ôl hil, crefydd, neu yn achos unrhyw droseddau newydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol, yn derbyn condemniad arbennig.

Cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu

- 1.42 Pan fo troseddwr yn euog o drosedd waethygedig, caiff ei chofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu fel "hiliol neu grefyddol waethygedig". Bydd hyn wedyn yn ymddangos ar gofnod troseddol y troseddwr. Fodd bynnag, pan fydd y barnwr yn cynyddu dedfryd o dan adran 146, nid yw hyn yn cofnodi'n awtomatig ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu. Un o'n cynigion, a amlinellir isod ym mharagraffau 1.51 a 1.52, yw newid hyn fel bod y defnydd o adrannau 145 a 146 yn cael ei gofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu yn yr un modd ag y mae troseddau gwaethygedig ar hyn o bryd.

Defnydd o'r cynllun dedfrydu estynedig yn ymarferol

- 1.43 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn trafod p'un a yw adran 146 yn cael ei defnyddio'n gywir ar hyn o bryd wrth ddedfrydu troseddwr. Mae ein gwaith ymchwil cychwynnol yn awgrymu ei bod yn cael ei thanddefnyddio. I gywiro hyn, rydym yn cynnig canllawiau dedfrydu newydd ar gyfer y llys. Mae'r cynnig hwn wedi'i amlinellu isod ym mharagraffau 1.48 i 1.50.

Archwilio gelyniaeth

- 1.44 Mae angen i droseddau gwaethygedig brofi naill ai arddangosiad o elyniaeth neu ysgogiad gelyniaethus yn ystod treial. Ar y llaw arall, mae adran 146 yn berthnasol ar ôl y treial, pan fydd y troseddwr wedi'i gael yn euog o'r drosedd a bod y llys yn penderfynu ar y ddedfryd briodol. Mae hyn yn golygu mai dim ond y barnwr dedfrydu sydd angen fod wedi'i argyhoeddi bod gelyniaeth wedi'i harddangos neu fod y drosedd wedi ei hysgogi gan elyniaeth tuag at y grŵp penodol. Gall fod yn ymarferol haws a chyflymach i asesiad o'r dystiolaeth o elyniaeth gael ei wneud gan farnwr profiadol (wrth ddefnyddio adran 146) nag a fyddai i reithgor mewn achos trosedd waethygedig.

Y gallu i herio'r ddedfryd

- 1.45 Eglurwyd uchod ym mharagraff 1.25 os yw'n ymddangos fod dedfryd ar gyfer trosedd waethygedig yn rhy isel, yna gellir ei chyfeirio at y Llys Apêl. Bydd y Llys Apêl yn adolygu'r achos a gall gynyddu'r ddedfryd. Fodd bynnag, ni ellir adolygu pob trosedd yn y modd hwn. Mewn achosion lle rhoddwyd dedfryd estynedig (neu y gallai fod wedi ei rhoi) gan ddefnyddio adran 145 neu 146, ni ellir ond eu cyfeirio at y Llys Apêl os yw'r drosedd benodol dan sylw mewn rhestr o droseddau difrifol penodol. Nid yw'r troseddau sylfaenol, er enghraifft, yn dod o fewn y rhestr hon.

Cynnig o ran dedfrydu

- 1.46 Rydym yn credu y gallai'r cynllun dedfrydu estynedig roi ymateb digonol i droseddau sy'n cynnwys gelyniaeth sy'n cael ei harddangos, neu'n cael ei hysgogi gan elyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol, os yw'r gyfraith yn cael ei gweithredu ac yn arwain at gofnod digonol o gamwedd y troseddwr. Rydym yn gofyn p'un a yw ein ymgylgoreion yn cytuno â hyn.
- 1.47 Rydym hefyd yn nodi rhai newidiadau syml i'r cynllun dedfrydu a fyddai'n gallu cwrdd â rhai o'r problemau yr ydym wedi'u nodi yn y cynllun presennol. Yma, amlinellwn y newidiadau hyn yn fyr.

(1) Canllawiau dedfrydu newydd ar gyfer llysoedd

- 1.48 Ar hyn o bryd, nid oes canllawiau penodol i helpu'r llys benderfynu pryd a sut i ddefnyddio adran 146. Rydym o'r farn y dylai canllawiau newydd gan y Cyngor Dedfrydu gael eu gynhyrchu i'r diben hwn. Dylai'r canllawiau hefyd roi cyfarwyddyd ynglŷn â gweithredu adran 145.
- 1.49 Gallai canllawiau newydd fod â nifer o fanteision. Mae'r rhain yn cynnwys cynyddu'r tebygolrwydd bod yr heddlu'n casglu gwybodaeth yn ymwneud ag arddangos neu ysgogi gelyniaeth, a chynyddu'r tebygolrwydd bod barnwyr yn defnyddio adrannau 145 a 146 i gynyddu dedfrydau mewn achosion priodol. Gallai'r canllawiau hefyd wneud y dedfrydau ar gyfer troseddau sy'n seiliedig ar elyniaeth yn fwy cyson, ac arwain at well monitro a chofnodi'r defnydd o adrannau 145 a 146.
- 1.50 Yn y papur ymgynghorol, gofynnwn os yw ymgylgoreion yn cytuno â'n cynnig ar gyfer canllawiau newydd gan y Cyngor Dedfrydu i ymdrin â gwaethygiad ar sail gelyniaeth o dan adrannau 145 a 146.

(2) Cofnodi ar Gyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu

- 1.51 Pan ddefnyddir adrannau 145 a 146, credwn y dylai'r ffaith hon gael ei chofnodi ac y dylai ddod yn rhan o gofnod troseddol y troseddwr.
- 1.52 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn gofyn i ymgynghoreion os ydynt o'r farn y byddai ein cynigion yn ymdrin yn briodol â'r problemau yr ydym yn eu nodi mewn perthynas â chofnodi annigonol o natur camwedd y troseddwr.
- 1.53 Rydym hefyd yn gofyn os dylai'r newidiadau hyn i'r cynllun dedfrydu estynedig gael eu cyflwyno, p'un a yw'r troseddau gwaethygedig yn cael eu hystyn yn gynnwys anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol ai peidio (gweler isod).

OPSIWN DIWYGIO 2: CREU TROSEDDAU GWAETHYGEDIG NEWYDD

- 1.54 Yr ail ddewis diwygio yw ymestyn y troseddau gwaethygedig i gynnwys anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.
- 1.55 Dim ond yr achos dros ymestyn y troseddau presennol y mae ein cylch gorchwyl yn caniatáu i ni ei ystyried. Mae hyn yn golygu mai dim ond mewn perthynas â'r naw trosedd sylfaenol bresennol y byddai unrhyw droseddau newydd yn berthnasol, ac y byddai'n cynnwys holl elfennau'r troseddau gwaethygedig presennol, gan gynnwys ystyr "arddangos gelyniaeth" a chael eu "hysgogi gan elyniaeth".
- 1.56 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn nodi'r dadleuon craidd o blaid ac yn erbyn ymestyn y troseddau gwaethygedig. Yma, amlinellwn y dadleuon hyn.

A fyddai troseddau newydd yn delio â'r math a maint y troseddu?

- 1.57 Nid ydym yn gwybod faint yn union o droseddau casineb a gaiff eu cyflawni ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol. Nid ydym yn gwybod yn union pa fath o drosedd sy'n cael ei chyflawni. Dim ond ar achosion o droseddau casineb sy'n cynnwys un o'r troseddau sylfaenol y gallai creu troseddau newydd gael effaith. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, gallai troseddau newydd hefyd ymdrin ag elfen elyniaeth yr ymddygiad troseddol. Ar y llaw arall, efallai bod atebion mwy effeithiol lle nad oes angen unrhyw ddeddfau troseddol newydd, megis gwell addysg.

I ba raddau mae troseddau sy'n bodoli eisoes yn ymdrin â'r ymddygiad y byddai troseddau gwaethygedig newydd yn ymdrin ag ef?

- 1.58 Mae'r gyfraith droseddol eisoes yn amddiffyn y tair nodwedd dan ystyriaeth trwy'r troseddau sylfaenol (er enghraifft, mae'n drosedd ymosod ar berson anabl am ei fod yn berson abl). Yn ogystal, mae troseddau trefn gyhoeddus sy'n troseddoli'r arddangosiad o elyniaeth pan mae'n sarhaus, difriol neu fygythiol. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith droseddol bresennol yn cwmpasu'r holl ymddygiad a fyddai'n cael ei gwmpasu gan y troseddau gwaethygedig. Er enghraifft, nid yw'r gyfraith bresennol yn ymdrin â chymhellion gelyniaethus, heblaw mewn dedfrydu.

A yw'r gyfraith droseddol bresennol yn ddigonol i ymdrin â'r niwed a ddiodefifir?

- 1.59 Nid oes unrhyw dystiolaeth ar gael i benderfynu'n glir p'un a yw'r niwed a ddiodefifir gan ddiodefifwyr troseddau gwaethygedig yn fwy difrifol, neu'n wahanol o ran math, i'r niwed a ddiodefifir gan ddiodefifwyr troseddau sylfaenol.

A yw'r troseddau presennol yn ddigonol i annog diodefifwyr a thystion i adrodd ynghylch troseddau casineb?

- 1.60 Nid yw llawer o droseddau casineb anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a thrawsryweddol yn cael eu hadrodd i'r heddlu. Pe byddai troseddau newydd yn cael eu creu, gallai hynny annog diodefifwyr a thystion i adrodd ynghylch troseddau casineb. Fodd bynnag, efallai bod ffyrdd eraill mwy effeithiol o gynyddu cyfraddau adrodd heb greu troseddau newydd. Gallai'r rhain gynnwys mentrau addysg, a chefnogi diodefifwyr drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

A fyddai troseddau gwaethygedig newydd yn helpu atal troseddau casineb?

- 1.61 Mae'n bosibl y byddai ymestyn y troseddau gwaethygedig yn atal pobl rhag cyflawni troseddau yn erbyn pobl eraill oherwydd gelyniaeth ar sail anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol. Fodd bynnag, os yw cyfraith droseddol yn effeithiol o ran atal pobl rhag cyflawni troseddau, yna dylai'r troseddau sylfaenol sydd eisoes yn bodoli atal pobl rhag gwneud y math o bethau a fyddai'n cael eu cynnwys o dan droseddau gwaethygedig. Nid yw'n bosibl profi y byddai'r label gwaethygu neu ddedfrydau uchafswm uwch, sy'n dod yn sgil troseddau gwaethygedig, yn cael unrhyw effaith ychwanegol o ran atal troseddau casineb. Ond mae'n bosibl y byddai troseddau gwaethygedig newydd yn cael effaith gadarnhaol yn y tymor hir drwy gyfrannu at newid agweddau mewn cymdeithas.

A yw'r cynllun dedfrydu presennol yn rhoi "label" sy'n adlewyrchu'r camwedd?

- 1.62 Fel yr ydym wedi esbonio, mae troseddau gwaethygedig yn cario "label gwaethygedig". Mae hyn yn golygu bod gan y drosedd waethygedig enw gwahanol i'r drosedd sylfaenol gyfatebol, ac y bydd difrifoldeb mwy'r drosedd yn glir i'r troseddwr, y diodefifwr a'r cyhoedd. Nid oes label tebyg ynghlwm â throseddwr pan fydd y cynllun dedfrydu estynedig yn cael ei ddefnyddio. Fodd bynnag, er bod enw'r drosedd yn ffordd bwysig o gyfleu camwedd y troseddwr, rydym yn credu y gall dedfrydu hefyd fod yn arf pwysig ac effeithiol i gyfleu'r camwedd. Mae'n rhaid i'r barnwr gyfeirio at ei ddefnydd yn y llys agored wrth roi dedfryd.

A oes perygl y bydd y troseddau gwaethygedig newydd yn aneffeithiol?

- 1.63 Mae bob amser risg na fydd deddfau troseddol newydd mor effeithiol ag a ragwelwyd wrth anfon y neges a ddymunir neu atal pobl rhag cyflawni troseddau. Ond pe byddai'r troseddau gwaethygedig yn aneffeithiol gallai hyn fod yn arbennig o ddifrifol. Er enghraifft, gallai hyder y diodefifwyr a'r gymdeithas ehangach yng ngwerth y gyfraith droseddol gael ei danseilio.

Cynnig ynghylch troseddau gwaethygedig

- 1.64 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn gofyn i ymgynghoreion sy'n meddwl y byddai ein cynigion mewn perthynas â'r cynllun dedfrydu estynedig yn annigonol p'un a ydynt yn credu y byddai dewis arall, neu ychwanegol, yn ymestyn y troseddau gwaethygedig i gynnwys anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

MODELAU AR GYFER TROSEDDAU NEWYDD

- 1.65 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn edrych ar y gwahanol fodolau y gallai unrhyw droseddau gwaethygedig newydd eu cymryd.
- 1.66 Byddai unrhyw droseddau gwaethygedig newydd a allai gael eu creu yn seiliedig ar ffurf bresennol y troseddau gwaethygedig yn y CDA. Mae hyn yn golygu y byddai arnynt angen arddangos gelyniaeth neu ysgogiad gelyniaethus yn seiliedig ar anabledd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth drawsryweddol. Rydym yn esbonio uchod ym mharagraffau 1.20 i 1.23 beth mae'n ei olygu i arddangos gelyniaeth a beth mae'n ei olygu i gael ei ysgogi gan elyniaeth.
- 1.67 Yma rydym yn ystyried sut y byddai "anabledd", "cyfeiriadedd rhywiol" a "hunaniaeth drawsryweddol" yn cael eu diffinio mewn unrhyw droseddau newydd gan y bydd y diffiniadau hyn yn effeithio ar gwmpas y troseddau.
- 1.68 I bob un o'r tair nodwedd, byddai'n well gennym petai unrhyw droseddau newydd yn defnyddio'r un diffiniadau â'r cynllun dedfrydu estynedig. Mae'r diffiniadau yn adran 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol. Mae'n well gennym y diffiniadau hyn oherwydd, yn ymarferol, byddai'n haws cael yr un diffiniadau yn berthnasol i ddedfrydu a throseddau. Byddai hyn yn osgoi unrhyw anghysonderau neu fylchau rhag codi rhwng y troseddau ac ymddygiad gwaethygedig, y gellir rhoi dedfryd hirach amdano gan ddefnyddio adran 146. Efallai na fyddai diffiniadau eraill yn cyflawni'r un cysondeb.

Diffinio "anabledd"

- 1.69 Mae anabledd yn cael ei ddiffinio yn adran 146 fel "unrhyw amhariad corfforol neu feddyliol". Mater i'r llysoedd yw penderfynu a yw rhywbeth yn cyfrif fel anabledd, ac nid ydynt wedi nodi eto unrhyw ganllawiau ar hyn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gwybod beth fyddai'n drosedd waethygedig ar sail anabledd. Nid ydym yn gwybod yn union pa namau fyddai'n cyfateb i anabledd a pha effaith y mae'n rhaid i'r nam ei gael ar berson cyn y gellir ei ystyried yn anabledd.
- 1.70 Fodd bynnag, rydym yn credu bod manteision clir wrth ddefnyddio'r diffiniad hwn i unrhyw droseddau gwaethygedig newydd. Mae hyn oherwydd y byddai'n creu cysondeb rhwng y troseddau gwaethygedig a'r cynllun dedfrydu estynedig, ac oherwydd fod barnwyr a chyfreithwyr eisoes yn gyfarwydd ag ef. Yn y papur ymgynghorol, rydym yn cynnig y dylai'r diffiniad o anabledd mewn unrhyw droseddau gwaethygedig newydd fod yr un fath â'r diffiniad yn adran 146: "unrhyw amhariad corfforol neu feddyliol". Rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ydynt yn cytuno.
- 1.71 Yn y papur ymgynghorol, rydym hefyd yn ystyried (a gwrthod) diffiniadau eraill o anabledd sy'n bodoli mewn meysydd eraill o'r gyfraith.

Diffinio "cyfeiriadedd rhywiol"

- 1.72 Nid yw'r term "cyfeiriadedd rhywiol" yn cael ei ddiffinio yn adran 146 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol. Fodd bynnag, mae'r llysoedd wedi mabwysiadu'r diffiniad sydd yr un fath â'r diffiniad a nodir mewn meysydd eraill o'r gyfraith, gan gynnwys ar gyfer troseddau ysgogi casineb. O dan y diffiniad hwn, mae "cyfeiriadedd rhywiol" yn golygu cyfeiriadedd tuag at bobl o'r un rhyw, y rhyw arall neu'r ddau. Nid yw'n cynnwys pobl anrhywiol, neu bobl heb unrhyw gyfeiriadedd rhywiol.
- 1.73 Rydym yn credu y dylai'r diffiniad o gyfeiriadedd rhywiol mewn unrhyw drosedd waethygedig newydd fod yr un fath â'r diffiniad presennol yn adran 146: "cyfeiriadedd tuag at bobl o'r un rhyw, y rhyw arall neu'r ddau". Yn y papur ymgynghorol, rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ydynt yn cytuno.

Diffinio "hunaniaeth drawsryweddol"

- 1.74 Mae'r cyfeiriad at fod yn drawsryweddol yn adran 146 yn cynnwys cyfeiriad at fod yn drawsrywiol, neu yn ymgymryd, yn bwriadu ymgymryd neu wedi ymgymryd ag unrhyw ran o broses ailbennu rhywedd. Mater i'r llysoedd yw penderfynu sut y dylai'r diffiniad hwn gael ei ddehongli ac nid ydynt eto wedi nodi unrhyw ganllawiau ar hyn.
- 1.75 Ym mhenodau 2 a 3 o'r papur ymgynghorol, byddwn yn trafod yn fanwl yr hyn y gall y term "hunaniaeth drawsryweddol" gyfeirio ato, a sut y gallai diffiniad adran 146 fod yn berthnasol i unrhyw droseddau gwaethygedig newydd. Rydym yn deall nad yw'r term yn cael ei ddefnyddio'n gyson bob amser. Er enghraifft, mae weithiau'n cynnwys trawswisgwyr, ond nid bob amser.
- 1.76 Rydym yn cynnig y dylai'r diffiniad o hunaniaeth drawsryweddol am unrhyw drosedd waethygedig newydd fod yr un fath â'r diffiniad yn adran 146: "mae cyfeiriadau at fod yn drawsryweddol yn cynnwys cyfeiriadau at fod yn drawsrywiol, neu yn ymgymryd, yn bwriadu ymgymryd neu wedi ymgymryd ag unrhyw ran o broses ailbennu rhywedd". Rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ydynt yn cytuno.
- 1.77 Rydym hefyd yn edrych ar y diffiniad o "hunaniaeth drawsryweddol" sydd wedi'i nodi yng nghyfraith yr Alban. Mae hyn yn esbonio bod hunaniaeth drawsryweddol yn cyfeirio at: drawswisgo, trawswioldeb, rhyngrywioldeb neu wedi newid rhywedd, neu unrhyw hunaniaeth rywedd arall nad yw'n hunaniaeth wrywaidd neu fenywaidd safonol.
- 1.78 Byddai'r diffiniad hwn yn rhoi sicrwydd y byddai trawswisgwyr a phobl ryngrywiol yn cael eu diogelu gan y troseddau gwaethygedig newydd. Fodd bynnag, byddai anghysondeb rhwng y troseddau gwaethygedig a'r cynllun dedfrydu estynedig pe bai adran 146 yn cael ei dehongli'n wahanol i hyn.
- 1.79 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ydynt yn ystyried p'un a yw'r diffiniad hwn sydd wedi'i nodi yng nghyfraith yr Alban yn well na'r un yn adran 146 ar gyfer unrhyw droseddau gwaethygedig newydd.

Elfennau eraill o'r troseddau

- 1.80 Byddai elfennau eraill o'r troseddau gwaethygedig presennol - "arddangos gelyniaeth" ac "wedi'i ysgogi gan elyniaeth" - yn berthnasol i'r drosedd newydd fel

y maent i hil a chrefydd. Er enghraifft, byddai'n drosedd waethygedig arddangos gelyniaeth tuag at dioddefwr trosedd sylfaenol am fod y dioddefwr yn cymysgu neu'n cymdeithasu gyda phobl sy'n perthyn i un o'r tair nodwedd. Rydym yn credu y byddai hyn yn cynnwys gofawyr, meddygon a staff meddygol eraill sy'n gofalu am bobl ag anabledau, pobl sy'n cefnogi elusennau sy'n gweithio gyda phobl LGB, a'r rhai sy'n ymwneud ag elusennau sy'n cefnogi pobl drawsryweddol.

- 1.81 Un anhawster penodol a allai godi gydag unrhyw droseddau gwaethygedig anabledd newydd yw penderfynu p'un a yw troseddwr wedi'i gymell, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, gan elyniaeth neu a oedd y drosedd wedi ei chyflawni oherwydd bod y dioddefwr yn cael ei ystyried yn agored i niwed. Er enghraifft, efallai fod y drosedd wedi cael ei chyflawni yn erbyn person anabl oherwydd eu bod yn cael eu gweld fel "targed hawdd", ac nid oherwydd bod y troseddwr yn cael ei ysgogi gan elyniaeth tuag at bobl ag anabledau. Ni fyddai hon yn drosedd waethygedig oni bai bod arddangosiad o elyniaeth tuag at y dioddefwr oherwydd anabledd y dioddefwr.
- 1.82 Yn y papur ymgynghorol, rydym yn gofyn i ymgynghoreion a ydynt yn meddwl y byddai unrhyw broblemau penodol yn digwydd gydag elfennau presennol y troseddau gwaethygedig petai troseddau gwaethygedig newydd yn seiliedig ar anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a/neu hunaniaeth drawsryweddol.

2 TROSEDDAU YSGOGI CASINEB

- 1.83 Mae nifer o droseddau penodol sy'n ei gwneud yn drosedd cymryd rhan mewn ymddygiad y bwriedir iddo, neu sy'n debygol o, ysgogi casineb tuag at grŵp o bobl oherwydd eu hil, neu y bwriedir iddo ysgogi casineb tuag at grŵp o bobl oherwydd eu crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r troseddau casineb hiliol yn adrannau 18 i 23 y Ddeddf Trefn Gyhoeddus ("POA") 1986. Mae'r troseddau o ysgogi casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol yn adrannau 29B i 29F.
- 1.84 Y chwe math o ymddygiad a gynhwysir o dan y troseddau hyn yw:
- defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus neu arddangos deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, difriol neu sarhaus;
 - cyhoeddi neu ddsbarthu deunydd ysgrifenedig sy'n fygythiol, difriol neu sarhaus;
 - cyflwyno neu gyfarwyddo drama yn gyhoeddus yn ymwneud â defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus;
 - dosbarthu, dangos neu chwarae recordiad o luniau neu seiniau sy'n fygythiol, difriol neu sarhaus;
 - darparu, cynhyrchu neu gyfarwyddo rhaglen (er enghraifft, rhaglen deledu neu radio) pan fo'r rhaglen yn cynnwys lluniau neu seiniau bygythiol, difriol neu sarhaus, neu ddefnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difriol neu sarhaus; neu
 - meddu ar ddeunydd ysgrifenedig, neu recordiad o luniau neu seiniau, sy'n fygythiol, difriol neu sarhaus, gyda golwg ar iddo gael ei arddangos, cyhoeddi, dosbarthu, dangos, chwarae neu ei gynnwys mewn rhaglen.

1.85 Mae gan y troseddau ysgogi casineb wahanol elfennau yn achos casineb hiliol nag sydd ganddynt ar gyfer casineb yn achos cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd. Rydym yn rhoi mwy o fanylion yn ddiweddarach, ond y gwahaniaethau allweddol yw:

- (1) **Hil** - mae'n rhaid i'r geiriau neu'r ymddygiad fod yn *fygythiol*, *difriol* neu *sarhaus* ac mae'n rhaid bod yna *fwriad* i ysgogi casineb, neu *debygolrwydd* y gallai gael ei ysgogi.
- (2) **Crefydd** - mae'n rhaid i'r geiriau neu ymddygiad fod yn fygythiol ac mae'n rhaid bod yna *fwriad* i ysgogi casineb. Mae amddiffyniad penodol yn cael ei ddarparu i ddiogelu rhyddid barn. Mae hwn yn dweud nad yw beirniadu, sarhau neu wawdio credoau crefyddol yn drosedd o dan y gyfraith ysgogi casineb.
- (3) **Cyfeiriadedd rhywiol** - rhaid i'r geiriau neu ymddygiad fod yn *fygythiol* ac mae'n rhaid bod yna *fwriad* i ysgogi casineb. Mae amddiffyniad penodol yn cael ei ddarparu i ddiogelu rhyddid barn. Mae hwn yn dweud nad yw beirniadu ymddygiad neu arferion rhywiol neu annog ataliad yn drosedd o dan y gyfraith ysgogi casineb.

1.86 Rydym yn galw'r model casineb hiliol yn fodel "eang" a'r model casineb crefyddol a chyfeiriadedd rhywiol yn fodel "cul". Ceir mwy o wybodaeth am y gwahanol elfennau ym mharagraff 1.109 isod.

1.87 Mae'r troseddau ysgogi casineb yn wahanol iawn i'r troseddau gwaethygedig a'r gyfraith dedfrydu estynedig. Mae'r troseddau gwaethygedig yn berthnasol i droseddau sydd eisoes yn bodoli (fel ymosodiad, aflonyddu neu ddifrod troseddol), fel yr eglurwyd uchod ym mharagraff 1.18. Ond mae'r troseddau ysgogi casineb yn creu troseddau newydd penodol o ysgogi casineb yn erbyn grŵp penodol. Mae erlyniadau am droseddau ysgogi casineb yn brin o'u cymharu â'r troseddau gwaethygedig.

Nodweddion cyffredin y troseddau

Ystyr "bygythiol, difriol neu sarhaus"

1.88 Nid oes ystyr gyfreithiol arbennig i'r geiriau "bygythiol, difriol neu sarhaus". Mae hyn yn golygu y bydd y rheithgor neu'r ynadon sy'n penderfynu ar yr achos hefyd yn penderfynu a yw'r geiriau neu ymddygiad yn fygythiol, difriol neu sarhaus, o ystyried eu hystyr arferol.

Ystyr "casineb"

1.89 Nid yw casineb yn cael ei ddiffinio yn y POA, ond diffiniad y geiriadur o gasineb yw: "emosiwn neu deimlad o gasineb, atgasedd gweithredol, ffeidd-dod, gelyniaeth, drwgdeimlad, drwgewyllys". Caiff y ferf ei ddiffinio fel: "casáu, ffeiddio, dwyn malais yn erbyn, y gwrthwyneb i 'garu'". Mae "casineb" yn gryfach na "gelyniaeth". Dywed canllawiau CPS ar ysgogi casineb

Mae casineb yn emosiwn cryf iawn. Efallai nad yw ysgogi tensiwn hiliol, gwrthwynebiad, na hyd yn oed elyniaeth o anghenraid yn ddigon i fod yn gyfystyr â throsedd.

Y dadleuon o blaid ac yn erbyn troseddau newydd

- 1.90 Rydym yn awr yn edrych ar yr achos dros ymestyn y troseddau ysgogi casineb, gan gynnwys casineb yn erbyn pobl ag anableddau a phobl drawsryweddol. Yn ein trafodaethau cychwynnol gyda grwpiau â diddordeb, ni wnaeth yr angen i ymestyn troseddau ysgogi casineb yn y modd hwn ddod i'r amlwg fel mater canolog: tynnodd y rhan fwyaf o grwpiau sylw at yr angen i ymdrin ag adroddiadau negyddol yn y cyfryngau am anabledd a materion trawsryweddol a chael gwell ymateb i aflonyddu a seiber-fwlio. Ond, ar ôl nodi'r dadleuon, rydym yn dod i farn dros dro bod achos mewn egwyddor i ymestyn. Rydym yn crynhoi'r dadleuon fel a ganlyn.

A yw troseddau sydd eisoes yn bodoli'n ymdrin â'r un ymddygiad y byddai troseddau ysgogi casineb yn delio â hwy?

- 1.91 Yr ateb i hyn yw: ydynt, ond nid yn gyfan gwbl. Mae peth o'r ymddygiad a fyddai'n cael ei dargedu gan unrhyw droseddau ysgogi casineb newydd eisoes yn dod o dan y troseddau presennol. Er enghraifft:

- (1) Mae rhannau eraill o'r POA yn ei gwneud yn drosedd defnyddio geiriau neu ymddygiad bygythiol, difriol, neu sarhaus, peri i rywun ofni trais; ysgogi rhywun i drais; neu achosi aflonyddwch, braw neu ofid yn fwriadol.
- (2) Mae Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 yn ei gwneud yn drosedd i ddefnyddio rhwydwaith electronig cyhoeddus (fel y rhyngrwyd), i anfon neges sy'n hynod dramgwyddus neu anwedus, anllad neu fygythiol.
- (3) Mae Deddf Troseddau Difrifol 2007 yn ei gwneud yn drosedd i annog rhywun i gyflawni trosedd, ni waeth a oes unrhyw drosedd yn cael ei chyflawni.

- 1.92 Gallai pob un o'r rhain gael eu defnyddio os yw'r targed neu ddiodefwr y gamdriniaeth neu drosedd arall yn drawsryweddol neu gydag anabledd. Ac, os bydd y llys yn penderfynu bod y troseddwr wedi arddangos neu wedi'i ysgogi gan elyniaeth yn erbyn anabledd neu statws trawsryweddol y dioddefwr, gellir cynyddu'r ddeddfryd i adlewyrchu hynny o dan adran 146 CJA.

- 1.93 Ond, er gwaethaf y gorgyffwrdd hwn, nid yw'r troseddau presennol yn cwmpasu'r holl ymddygiad y byddai'r troseddau ysgogi casineb newydd yn ei gynnwys. Byddai troseddau estynedig yn cynnwys math unigryw a difrifol o gamwedd nad yw'r gyfraith bresennol yn ymdrin yn uniongyrchol ag ef: y broses o ledaenu casineb yn erbyn grŵp - yn yr achos hwn, pobl anabl neu bobl drawsryweddol. Byddent hefyd yn cynnwys ymddygiad a oedd yn ysgogi pobl i gasáu pobl anabl neu bobl drawsryweddol, ond nad oedd wrth wneud hynny'n ysgogi unrhyw un i gyflawni trosedd yn ogystal yn erbyn pobl anabl neu drawsryweddol.

A yw'r gyfraith eisoes yn ymdrin ag effaith negyddol y camwedd hwn?

- 1.94 Mae'r troseddau ysgogi casineb yn anelu at atal effeithiau negyddol lledaenu casineb yn erbyn grwpiau penodol. Er enghraifft:

- (1) Lle caiff trosedd ei chyflawni yn erbyn person anabl neu drawsryweddol o ganlyniad i'r ffaith fod rhywun wedi ysgogi casineb, bydd y dioddefwr yn amlwg yn dioddef niwed y drosedd honno (boed yn gorfforol, meddyliol neu niwed i'w eiddo).

- (2) Gall dioddefwr y drosedd hefyd ddioddef niwed ychwanegol o gael eu targedu oherwydd casineb am eu bod yn y grŵp. Gallai hynny arwain at deimlo'n fwy agored i niwed neu ddioddef niwed meddyliol gwaeth o ganlyniad i'r drosedd.
 - (3) Gall niwed anuniongyrchol ddigwydd lle mae pobl yn y grŵp penodol yn gweld ysgogi casineb fel rhywbeth sy'n golygu nad ydynt bellach yn perthyn i'r cymunedau lle maent yn byw a bod eu lle mewn cymdeithas yn cael ei fygwth, oherwydd na all y system cyfiawnder troseddol ymdrin â'r weithred o ysgogi casineb yn eu herbyn.
 - (4) Gall ysgogi casineb hefyd gael ei ystyried yn niweidiol i wead cymdeithas, oherwydd gall casineb ysgogi rhagfarn a gwahaniaethu, sy'n cael eu hystyried yn ddrwg i gymdeithas yn gyffredinol.
- 1.95 Dim ond y ddau fath uniongyrchol cyntaf o niwed a ddioddefir gan y dioddefwr trosedd anabl neu drawsryweddol sy'n cael eu cwmpasu gan droseddau presennol. Er enghraifft, pan ymosodir ar berson anabl oherwydd bod y troseddwr wedi cael ei ysgogi i gasáu pobl anabl, yna caiff y troseddwr hwnnw ei erlyn, efallai gyda dedfryd estynedig o dan adran 146 CJA. Ond nid yw'r gyfraith droseddol yn ymdrin â'r niwed arall, llai uniongyrchol, a restrir uchod yn y ffordd y byddai trosedd ysgogi casineb benodol yn ei wneud.

A yw troseddau presennol yn atal ysgogi casineb?

- 1.96 Gall y troseddau a restrir o dan baragraff 1.91 uchod eisoes atal pobl rhag ymddwyn mewn ffordd sy'n sarhaus, difriol neu fygythiol tuag at bobl anabl neu drawsryweddol. Ond gallai ymestyn y troseddau ysgogi casineb fod yn fwy o arf ataliol, oherwydd eu bod yn cario cosbau uchaf hirach (hyd at saith mlynedd). Fodd bynnag, nid yw'n bosibl profi bod cosbau uchaf uwch yn atal troseddu.

Beth am werth symbolaidd gwneud rhywbeth yn drosedd?

- 1.97 Gallai ymestyn y troseddau ysgogi casineb fod â manteision symbolaidd drwy droseddoli ymddygiad sy'n hyrwyddo casineb tuag at grŵp. Bydd troseddwr sy'n cael eu dyfarnu'n euog o drosedd ysgogi casineb yn cael eu "labelu" mewn ffordd sy'n adlewyrchu natur ddifrifol eu camweddau.
- 1.98 Mae cymdeithas yn gyffredinol, a phobl drawsryweddol a phobl anabl yn arbennig, yn gweld bod y gyfraith yn credu ei bod yn bwysig eu diogelu rhag casineb a'i effeithiau niweidiol. Gall aelodau o'r grwpiau weld cysylltiad rhwng llefaru casineb a'u profiad o droseddau neu niwed eraill, fel aflonyddu, gwahaniaethu neu ragfarn, y gallai'r troseddau newydd yn anuniongyrchol helpu eu hatal.
- 1.99 Ar y llaw arall, efallai y bydd y dadleuon canlynol yn gwanhau'r achos symbolaidd hwn am estyniad:
- (1) Gallai ei gwneud yn drosedd mynegi barn atgas iawn am bobl anabl neu drawsryweddol olygu bod y safbwyntiau hyn yn llai tebygol o gael eu trafod neu eu beirniadu'n rymus gan eraill sydd â gwahanol safbwyntiau.
 - (2) Gall troseddau ysgogi casineb newydd a gynlluniwyd i amddiffyn rhai grwpiau gynhyrchu drwgdeimlad tuag at y grwpiau hynny a'u haelodau, oherwydd y gallant gael eu gweld fel eu bod yn cael eu ffafrio'n annheg.

- (3) Gall troseddau sy'n gwarchod grwpiau penodol arwain at i aelodau o'r grŵp gael eu gweld fel rhai gwannach nag eraill mewn cymdeithas.
- (4) Gall troseddau ysgogi casineb newydd arwain at i lefaru casineb ddod yn rhywbeth cudd.

A oes atebion eraill i'r broblem?

1.100 Dangosodd ein trafodaethau cynnar gyda grwpiau anabledd a thrawsryweddol fod ymdeimlad bod y sylw negyddol a rhagfarnllyd yn y cyfryngau'n hybu cynnydd mewn bwlio, aflonyddu a throseddau yn erbyn pobl anabl a thrawsryweddol. Gall y rhyngrwyd a chyfryngau cymdeithasol ganiatáu i'r sylw hwn ledaenu'n gyflymach ac yn eang. Eisoes mae mentrau sy'n ceisio ymdrin â rhai o'r problemau hyn (mae rhai ohonynt yn rhan o gynllun gweithredu ar droseddau casineb parhaus y Llywodraeth):

- (1) Gwaith gyda Chomisiwn Cwynion y Wasg i ymdrin ag adroddiadau negyddol yn y cyfryngau.
- (2) Rhaglen i ymdrin â throseddau casineb ar y rhyngrwyd. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddatblygu canllawiau ar gyfer safonwyr cynnwys ar-lein. Y nod yw creu ateb syml a chyflym i'r broblem o gynnwys ar-lein sy'n atgas, felly unwaith y bydd safonwyr yn adrodd ar y cynnwys hwn i westeiwyr gwefan, gellir ei symud.
- (3) Mentrau addysg, gan gynnwys gydag elusennau a grwpiau eraill, i sicrhau bod ysgolion yn cael yr offer a'r adnoddau angenrheidiol i helpu atal a delio â bwlio sy'n cael ei ysgogi gan ragfarn.

1.101 Dim ond os ydynt yn ymdrin â'r un math o gamweddau â'r troseddau ysgogi casineb y byddai'r rhain yn gamau amgen i'w cymryd yn lle'r troseddau newydd. Felly'r cwestiwn, nad oes o bosibl ateb clir iddo, yw hyn: a yw'r ymddygiad y byddai'r camau hyn yn ei dargedu yn gyfystyr ag ymddygiad "bygythiol" neu "fygythiol, difriol neu sarhaus" sydd wedi'i fwriadu neu'n debygol o ysgogi casineb yn erbyn pobl anabl a phobl drawsryweddol? Rydym yn trafod pa fath o gamweddau y dylai unrhyw droseddau newydd eu cwmpasu - gan ddefnyddio'r model "eang" neu fodel "cul" - ym mharagraff 1.109 isod.

Sut y byddai unrhyw droseddau newydd yn effeithio ar hawliau rhyddid barn?

1.102 Mae'r mathau o ymddygiad y mae'r troseddau hyn yn eu targedu i gyd yn ffurfiau ar fynegiant. Mae pryderon ynghylch sut y gallent gyfyngu ar hawliau rhyddid barn wedi arwain at i rai pobl wrthwynebu troseddau ysgogi casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.

1.103 Rhaid i unrhyw droseddau ysgogi casineb newydd a allai gael eu creu barchu erthygl 10(2) o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), sy'n amddiffyn yr hawl i fynegi barn yn rhydd. Mae'r hawl hwn yn gwarchod yr holl fathau o ymddygiad a restrir yn y troseddau ysgogi casineb. Mae'r hawl i ryddid barn yn cynnwys sylwedd yr hyn a fynegir (er enghraifft, a yw'n ffeithiol ynteu'n farn) **a'r** ffordd y caiff ei fynegi (hyd yn oed os yw'n sarhaus neu'n frawychus). Er mwyn parchu erthygl 10(2), rhaid i unrhyw droseddau newydd fod yn ymateb rhesymol i'r camwedd o ysgogi casineb.

- 1.104 Mae troseddau sy'n troseddoli ysgogi casineb yn erbyn grwpiau penodol hefyd yn codi'r hawl i ryddid barn, cydwybod a chrefydd, sy'n cael ei warchod o dan erthygl 9 yr ECHR.
- 1.105 Er mwyn parhau'r hawliau hyn, mae darpariaethau yn y troseddau o ysgogi casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol sy'n benodol yn diogelu'r hawl i ryddid barn. Mae'r rhain yn ei gwneud yn glir na fydd rhai mathau o fynegiant yn drosedd. Caiff y darpariaethau eu trafod ym mharagraffau 1.110 i 1.115 isod.

Casgliad rhagarweiniol ar yr achos mewn egwyddor am droseddau newydd

- 1.106 Ar ôl pwysu a mesur y dadleuon hyn, ein barn ni yw bod achos mewn egwyddor am droseddau newydd o ysgogi casineb ar sail anabledd a hunaniaeth drawsryweddol. Rydym yn gofyn os yw ymgylgoreion yn cytuno.

Yr angen am droseddau ysgogi newydd

- 1.107 Os oes achos mewn egwyddor dros ymestyn y troseddau, mae angen i ni ofyn a oes angen ymarferol am droseddau newydd. Anaml y caiff y troseddau ysgogi casineb sy'n bodoli eisoes eu herlyn. Gall hyn fod oherwydd nad yw'r math o ymddygiad eithafol maent yn ei gynnwys yn digwydd yn aml iawn, neu fod troseddau eraill yn cael eu defnyddio yn lle hynny, efallai oherwydd eu bod yn haws i'r erlyniad eu profi. Gallai hynny fod yn arbennig o wir am y modelau "cul" lle mae'n rhaid dangos *bwriad* i ysgogi casineb ac ymddygiad *bygythiol*.
- 1.108 Yn ein gwaith cynnar i ganfod ffeithiau, ni chlywsom lawer o alw am droseddau ysgogi casineb newydd. Yn 2008, penderfynodd y Llywodraeth beidio ag ymestyn y troseddau ysgogi casineb i gynnwys casineb yn erbyn pobl anabl neu drawsryweddol. Teimlai'r Llywodraeth nad oedd tystiolaeth ddigon cryf bod y math hwn o gasineb yn "cael ei ysgogi'n weithredol". Rydym yn gofyn i ymgylgoreion os ydynt yn credu bod angen ymarferol.

FFURF UNRHYW DROSEDDAU NEWYDD

- 1.109 Nesaf rydym yn archwilio pa ffurf allai unrhyw droseddau ysgogi casineb newydd sy'n ymwneud ag anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol ei gymryd. Fel y dywedasom ym mharagraff 1.85, mae gwahanol fersiynau o'r troseddau ysgogi casineb ar gyfer casineb sy'n seiliedig ar (1) hil; a (2) crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r fersiwn gyntaf yn eang fel y gall fod yn berthnasol i amrediad ehangach o weithgarwch. Mae'r ail yn gul. Y cwestiwn allweddol yr ydym yn edrych arno yw a ddylai unrhyw droseddau newydd ar gyfer casineb trawsryweddol neu anabledd ddilyn model "eang" ynteu "cul" y troseddau presennol.

- (1) o dan y model eang, bydd troseddwr yn euog os yw'n cyflawni unrhyw un o'r mathau o ymddygiad a restrir ym mharagraff 1.84, bod ymddygiad yn "fygythiol, difriol neu sarhaus", ac sydd naill ai wedi'i fwriadu gan y troseddwr i ysgogi casineb yn erbyn pobl anabl neu drawsryweddol neu sy'n debygol o wneud hynny.
- (2) o dan y model cul, bydd troseddwr yn euog os yw'n cyflawni unrhyw un o'r mathau o ymddygiad a restrir ym mharagraff 1.84, bod ymddygiad yn "bygwth" ac wedi'i fwriadu gan y troseddwr i ysgogi casineb yn erbyn pobl anabl neu drawsryweddol.

Gwarchod rhyddid mynegiant

- 1.110 Mae gwarchodaeth benodol dros ryddid barn yn y troseddau o ysgogi casineb ar sail crefydd a chyfeiriadedd rhywiol.
- 1.111 Mae'r ddarpariaeth rhyddid barn ar gyfer casineb crefyddol yn nodi'r mathau canlynol o fynegiant ac yn dweud na fyddant yn drosedd:
- Beirniadaeth, mynegi gwrthnawsedd, atgasedd, gwawd, sarhad neu ddirfrio crefyddau penodol neu gredoau neu arferion eu hymlynwyr, neu annog rhai o grefydd neu system gred benodol i roi'r gorau i'w hymarfer.
- 1.112 Mae'r ddarpariaeth rhyddid barn ar gyfer casineb cyfeiriadedd rhywiol yn amddiffyn y mathau canlynol o fynegiant:
- Beirniadaeth o ymddygiad neu arferion rhywiol, annog pobl i ymatal oddi wrth neu newid eu hymddygiad neu arferion rhywiol.
- 1.113 Cafodd y darpariaethau diogelu rhyddid barn hyn eu deddfu yn arbennig ar gyfer troseddau cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Nid ydynt yn berthnasol i droseddau casineb hiliol.
- 1.114 Nid yw'n glir eu bod yn wirioneddol angenrheidiol oherwydd byddai'n rhaid i'r llys ddefnyddio'r gyfraith hawliau dynol Ewropeaidd beth bynnag, ac mae honno'n diogelu rhyddid barn. Mae'n ymddangos eu bod wedi cael eu cynnwys er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth. Y dadleuon a gyflwynwyd o blaid eu cael oedd y byddent yn:
- (1) helpu i atal pobl rhag teimlo'n swil ynghylch siarad yn rhydd, neu ysgrifennu neu adrodd ar faterion crefyddol neu gyfeiriadedd rhywiol sensitif, oherwydd eu bod yn ansicr pa mor bell y gallai'r deddfau newydd gyfyngu ar hynny (gelwir hyn yn "effaith oeri")
 - (2) gwneud cwmpas y troseddau newydd yn glir drwy roi enghreifftiau o'r hyn na fyddai'n cael ei gynnwys,
 - (3) gwrth-annog swyddogion yr heddlu ac erlynyddion rhag defnyddio'r troseddau ac eithrio yn yr achosion difrifol y maent wedi'u bwriadu ar eu cyfer.
- 1.115 Yn y papur ymgynghorol, byddwn yn gofyn petai troseddau newydd o ysgogi casineb ar sail anabledd a/neu hunaniaeth drawsryweddol yn cael eu creu, a ddylent gynnwys diogelwch penodol ar gyfer rhyddid mynegiant ac, os felly, beth ddylai hyn ei gynnwys.

Sut ddylai "anabledd" a "thrawsryweddol" gael eu diffinio mewn unrhyw droseddau ysgogi newydd?

- 1.116 Os oes troseddau ysgogi casineb newydd i fod, byddai'n rhaid iddynt ddiffinio "anabledd" a "hunaniaeth drawsryweddol". Rydym yn gofyn rhai cwestiynau am sut y dylid eu diffinio. Mae hyn yn bwysig, gan y bydd y diffiniadau'n effeithio ar gwmpas y troseddau a faint o ymddygiad y buasent yn berthnasol iddo. Ar ôl nodi rhai diffiniadau amgen yn y papur ymgynghorol, rydym yn rhoi ein barn dros dro. Dywedwn petai troseddau gwaethygedig a throseddau ysgogi casineb yn cael eu hymestyn i gynnwys anabledd a hunaniaeth drawsryweddol, yna dylid defnyddio'r un diffiniadau ar gyfer pob trosedd, gan y bydd hyn yn helpu i wneud y gyfraith yn symlach ac yn haws i'w dilyn. Pe defnyddid diffiniadau gwahanol, gallai hyn arwain at i'r gyfraith fod yn ddryslyd.

DEDFRYDU ESTYNEDIG YN ERBYN TROSEDDAU YSGOGI NEWYDD

- 1.117 Fel yr ydym wedi esbonio, mae rhywfaint o'r ymddygiad a fyddai'n cael ei gwmpasu mewn unrhyw droseddau ysgogi casineb newydd eisoes yn dod o dan y troseddau presennol sy'n delio gyda, er enghraifft, geiriau neu ymddygiad bygythiol a chyfathrebu maleisus. Ond mae yna fylchau. Nid yw troseddau presennol yn cynnwys y math unigryw a difrifol o gamwedd: y broses o ledaenu casineb yn erbyn pobl anabl neu drawsryweddol. Nid yw'r gyfraith bresennol ychwaith yn ei gwneud yn drosedd annog pobl i gasáu pobl anabl neu drawsryweddol oni bai, yn y broses, bod y troseddwr hefyd yn annog rhywun i gyflawni trosedd.
- 1.118 Er y gellir defnyddio dedfrydu estynedig i ymdrin â gelyniaeth yn erbyn pobl anabl neu drawsryweddol pan fo trosedd wedi cael ei chyflawni, nid yw'n rhoi ymateb cyflawn. Mae hyn oherwydd lle nad yw'r gamwedd yn droseddol, ni ellir defnyddio adran 146 – dim ond ar ôl i'r diffynnydd gael ei ddyfarnu'n euog o drosedd sy'n bodoli eisoes y gall dedfrydu estynedig gael ei ddefnyddio. Hefyd, hyd yn oed os yw'r gamwedd yn droseddol, ni all defnyddio adran 146 wneud y canlynol
- (a) newid label neu ddisgrifiad o'r drosedd i'w gwneud yn glir mai ysgogi casineb yw'r gamwedd dan sylw; neu
 - (b) gynyddu uchafswm y gosb.

YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

- 1.119 Fel yr ydym wedi esbonio, mae'r papur ymgynghorol llawn, gan gynnwys cwestiynau ar gyfer ymgynghoreion, ar gael ar ein gwefan. Mae'r ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar **27 Medi 2013**. Byddem yn eich annog i ddefnyddio ein ffurflen ymateb, sydd ar gael ar-lein yn http://lawcommission.justice.gov.uk/docs/cp213_hate_crime_response-form.pdf, y gellir ei hanfon atom drwy e-bost i hate.crime@lawcommission.gsi.gov.uk neu drwy'r post i'r Criminal Law Team, Law Commission, Steel House, 11 Tothill Street, London, SW1H 9LJ.